Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Feithrinfa Sêr Môr Biwmares

**Ysgol Gynradd Biwmares**
**Maes Hyfryd**
**Biwmares**
**Ynys Môn**
**LL58 8HL**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Meithrinfa Sêr Môr Biwmares

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Meithrinfa Sêr Môr Biwmares |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Gweler unigolyn cyfrifol |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Timothy Gallagher a Rosalind Hen-Jones |
| Person â gofal | Jade Davidson a Liam Davies |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Ystod oedran y plant | Rhwng 18 mis a 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 8 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 3 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, o 8:45am tan 1:00pm. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg a Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Oes |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Mae hwn yn arolygiad llawn ar ôl cofrestru 12/11/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 23/01/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu defnydd ymarferwyr o ystod o gwestiynau i ddatblygu medrau dysgu a meddwl plant ymhellach

A2 Sicrhau bod yr holl ffurflenni damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cydnabod gan rieni a gofalwyr i ddangos tystiolaeth eu bod yn cael eu hysbysu’n rheolaidd

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob un o’r plant yn fodlon ac yn mynegi mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn ac yn dechrau gwneud ffrindiau ac ymgyfarwyddo ag arferion.

Mae bron pob un o’r plant yn cyfathrebu’n hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau cyflwyno’u hunain ac yn awyddus i ddangos gyda beth maent yn hoffi chwarae. Mae ychydig o blant yn siarad ag ymarferwyr am eu gwyliau dramor ac yn rhannu eu profiadau o fynd ar awyren yn frwdfrydig.

Mae bron pob un o’r plant yn hapus ac yn ymgynefino’n gyflym wrth iddynt gael eu cyfarch gan ymarferwyr cyfeillgar. Maent yn gyfarwydd ag arferion dyddiol ac yn dangos sut maent yn golchi eu dwylo ac yn paratoi ar gyfer amser byrbryd. Mae llawer o blant yn troi at ymarferwyr yn rhwydd i’w gwahodd i chwarae, am sgwrs neu i ofyn am sicrwydd, pan fydd angen.

Mae bron pob un o’r plant yn rhyngweithio’n gadarnhaol â’u ffrindiau a’r rhai sy’n gofalu amdanynt. Maent yn mwynhau achlysuron cymdeithasol prydau bwyd, yn arfer moesau da ac yn eistedd yn daclus wrth y bwrdd. Mae plant yn dysgu cymryd eu tro a rhannu. Er enghraifft, maent yn cymryd eu tro i weithio’r peiriant cyflenwi dŵr wrth iddynt helpu eu hunain i ddiod. Maent yn rhannu adnoddau’n dda yn ystod gweithgaredd crefft ac yn defnyddio detholiad o baentiau ac addurniadau i wneud eu

creadigaethau. Mae llawer o blant yn dysgu am bwysigrwydd caredigrwydd. Er enghraifft, mae plentyn yn helpu ei ffrind i fynd i fyny ar geffyl siglo ac mae hyn yn gwneud ei ffrind yn hapus.

Mae bron pob un o'r plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig. Cânt ryddid sylweddol i archwilio'u hamgylchedd yn ddiogel. Mae bron pob un o'r plant yn cyfarwyddo'u chwarae yn hyderus. Er enghraifft, mae ffrindiau'n mwynhau datblygu eu dychymyg yn y gornel gartref, gan ddefnyddio amrywiaeth o bropiau a nwyddau cartref wedi'u hailgylchu i wella'u chwarae rôl. Roedd ychydig o blant yn mwynhau ymarfer eu medrau synhwyraidd, gan arogli'r gwahanol beli persawrus o does chwarae a gwneud sylw nad oedd yr un yn arogli o goffi yn bleserus. Yn ystod chwarae yn yr awyr agored, mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda yn unol â'u cyfnod datblygu. Mae bron pob un ohonynt yn dangos hyder wrth benderfynu pa offer a gweithgareddau yr hoffent eu defnyddio. Er enghraifft, mae ffrindiau'n mwynhau sgrialu o gwmpas ar feiciau a dringo i fyny a lawr grisiau'r llithren. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau treulio cyfnodau estynedig yn chwarae ag adnoddau ac yn cydweithio'n dda â'u ffrindiau. Er enghraifft, mae plentyn yn cymryd y rôl arweiniol fel gyrrwr trên gan wahodd ei ffrindiau i eistedd ar y trên wrth iddynt fwynhau mynd ar eu taith ddychmygus.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn gadarnhaol. Maent yn dyfalbarhau i gau sip eu cotiau a gweithio allan pa droed yw'r droed dde wrth iddynt wisgo welintons. Mae bron pob un o'r plant yn dysgu gwneud pethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol gan ymarferwyr.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn eu hannog i fynegi eu hunain yn hyderus. Maent yn ymateb yn bwrpasol i gwestiynau a cheisiadau'r plant ac yn gofalu amdanynt mewn modd cynnes a chyfeillgar.

Mae ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac iach. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant. Mae trefniadau'r lleoliad i ddiogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae ymarferwyr yn cofnodi presenoldeb plant a'u presenoldeb eu hunain yn gyson fel rhan o'u harferion diogelu ehangach i sicrhau diogelwch plant. Mae ymarferwyr yn cwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal.

Mae ymarferwyr yn darparu bwydydd iach a dewis o laeth neu ddŵr i blant ei yfed. Maent yn annog plant i olchi eu dwylo a brwsio'u dannedd i ddatblygu eu harfer hylendid personol yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau, ond ni chaiff pob un o'r rhain eu llofnodi gan rieni a gofalwyr i ddangos

tystiolaeth eu bod yn cael eu hysbysu'n rheolaidd. Mae gweithdrefnau newid clytiau yn cyd-fynd â chanllawiau presennol ar reoli heintiau. Mae ymarferwyr yn cynnal driliau tân rheolaidd, fel bod plant yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Mae ymarferwyr yn gynnes a chroesawgar, ac yn gwneud yn siŵr fod plant yn cael tawelwch meddwl a chysur. Maent yn gwerthfawrogi ymdrechion plant ac yn dathlu eu cyflawniadau. Mae hyn yn creu awyrgylch tawel, hamddenol a hapus.

Mae ymarferwyr wedi ymrwymo i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu chwarae a dysgu plant yn llwyddiannus. Mae ganddynt ymagwedd ymatebol at gynllunio, ac yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar blant yn cyfarwyddo'u chwarae eu hunain. Maent yn canolbwyntio'n eithriadol o dda ar ymateb i ddiddordebau plentyn, eu hanghenion unigol a'u cyfnod datblygu. Mae ymarferwyr yn darparu cymorth addas a sensitif ar gyfer plant sydd efallai ag angen dysgu ychwanegol. Maent yn cydweithio'n dda i fagu hyder a gwydnwch plant. Mae ymarferwyr yn trefnu cyfleoedd diddorol, sy'n cael eu harwain gan ddewisiadau a phenderfyniadau'r plentyn. Maent yn olrhain cynnydd plant ac wedi manteisio ar yr arsylwadau hyn i greu profiadau chwarae a dysgu diddorol ar gyfer plant. Maent yn cynllunio'n dda ar gyfer y camau nesaf yn eu datblygiad ac yn adolygu cynnydd yn rheolaidd.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo dysgu plant am eu cymdeithas ehangach a threftadaeth Cymru yn dda. Er enghraifft, mae ffotograffau'n dangos plant yn mwynhau ymweliadau â'r castell lleol, yn siopa am fwyd, yn mwynhau hufen iâ yn y parlwr hufen iâ ac yn chwarae yn y parc lleol. Caiff dathliadau a gwyliau eu harchwilio'n llwyddiannus trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau crefft a storïau. Mae'r profiadau hyn yn helpu plant i wella'u medrau cymdeithasol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad y plentyn a phwysigrwydd rhoi amser i blant archwilio a chwarae. Maent yn croesawu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru yn dda ac yn darparu ystod eang o brofiadau diddorol ac ysgogol ar gyfer y plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd caniatáu cyfnodau estynedig o chwarae di-dor ar gyfer plant, ac yn deall sut mae hyn yn helpu plant i ddatblygu eu syniadau a'u medrau. Maent yn ystyried diddordebau'r plant ac yn eu defnyddio fel man cychwyn i gynllunio profiadau a gweithgareddau. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cynllunio ystod o weithgareddau ysgogol yn gysylltiedig â hylendid personol i ymateb i ddiddordeb plant ar ôl gwrando ar stori am y tafod.

Mae ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth o arsylwadau ac asesiadau yn effeithiol i lywio'r camau nesaf yn nysgu a chwarae'r plant. O ganlyniad, mae'r broses gynllunio yn adeiladu ar wybodaeth a medrau'r plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd tawel i blant chwarae a dysgu.

Mae ymarferwyr yn fodelau rôl da ac yn cynorthwyo plant i ddatblygu eu medrau iaith trwy ryngweithio gofalgar a chalonogol. Maent yn rhoi amser a lle iddynt archwilio creu marciau ac ysgrifennu cynnar gydag amrywiaeth o adnoddau, fel pennau

ysgrifennu, creonau, sialciau a phaent, er enghraifft wrth gofnodi gwerthiannau yn y siop fyrbrydau.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo cariad at ddarllen trwy ddarllen storïau gyda'r plant a myfyrio ar sut i gynyddu ymgysylltiad plant â darllen. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cyfuno'r defnydd o lyfrau ffuglen a ffeithiol ym mhob ardal ddysgu. O ganlyniad, mae mwy o blant yn dewis edrych ar lyfrau wrth chwarae.

Mae ymarferwyr yn galluogi plant i ddatblygu eu medrau corfforol yn dda. Maent yn annog plant i fentro'n ofalus yn eu chwarae a herio'u hunain yn gorfforol, gan eu cynorthwyo i ddatblygu gwydnwch, annibyniaeth a hyder. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i fod yn hyderus a gofalus wrth reidio beiciau a sgwteri o gwmpas yr ardal awyr agored ac wrth fynd i fyny a lawr grisiau.

Mae ymarferwyr yn darparu profiadau addas ac yn gofyn cwestiynau priodol i gynorthwyo plant i ennill dealltwriaeth fathemategol o gyfrif a siâp, er enghraifft cyfrif i fyny i 11 eitem o ffrwythau yn y siop fyrbrydau. O ganlyniad, mae plant yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu medrau rhifedd. Fodd bynnag, megis dechrau y mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau datrys problemau a digidol plant, ar y cyfan.

Mae ymarferwyr yn modelu'r defnydd o'r Gymraeg yn dda iawn. Maent yn annog plant i ymuno ag ystod eang o ganeuon a rhigymau Cymraeg. Mae ymarferwyr yn defnyddio ymadroddion a geirfa gyfarwydd yn dda yn ystod sesiynau grŵp cyfan. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau canu amrywiaeth o ganeuon Cymraeg, fel caneuon am y tywydd.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol, a chymdeithasol plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn dangos lefelau uchel o ofal a pharch at bawb. Mae ganddynt ymagwedd bwyllog, ac o ganlyniad, mae plant yn trin ei gilydd â pharch a gofal. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo'r diwylliant Cymreig yn dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a thrafod hanes lleol Castell Biwmares. Maent hefyd yn cynllunio gweithgareddau gwerthfawr i ddatblygu gwybodaeth plant am ddiwylliannau a thraddodiadau eraill. Er enghraifft, wrth ddysgu am wahanol emosiynau, maent yn defnyddio llyfrau sy'n dangos wynebau o ystod eang o ddiwylliannau. Yn ychwanegol, maent yn dathlu amrywiaeth yn llwyddiannus trwy astudio arferion y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd a darllen llyfrau o wahanol ddiwylliannau.

Mae ymarferwyr yn darparu gwybodaeth werthfawr ar gyfer rhieni a gofalwyr am gyflawniadau plant. Maent yn gwneud hynny trwy gyfryngau cymdeithasol, trafodaethau llafar, ac adroddiadau cynnydd defnyddiol.

### Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd croesawgar, cyfeillgar a glân lle gall plant chwarae'n annibynnol. Maent yn sicrhau bod asesiadau risg yn nodi'r peryglon posibl i blant yn briodol ac yn rhoi manylion am y mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn saff, ac yn cael ei gynnal yn dda. Mae arweinwyr yn trefnu arferion glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae gwybodaeth ar gael i bawb am sut byddant yn delio ag argyfyngau.

Mae ymarferwyr yn goruchwylio plant yn dda trwy gydol eu profiadau chwarae a dysgu.

Mae arweinwyr wedi gweithio'n galed i greu amgylchedd dan do deniadol. Maent yn darparu digonedd o adnoddau i ddatblygu iaith a rhifedd plant, a chyfleoedd ar gyfer chwarae'n annibynnol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn gallu gwneud defnydd hawdd o adnoddau wedi'u hailgylchu ac adnoddau cynaliadwy i ddatblygu eu medrau synhwyraidd a'u chwilfrydedd ymhellach. Mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr fod ardal ddynodedig ar gyfer eitemau personol plant, sy'n creu ymdeimlad o berthyn. Maent yn cyflwyno gwaith celf plant yn bwrpasol ac mae hyn yn dangos i blant bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod cynllun yr ardal chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth plant gan eu galluogi i archwilio'n rhydd a gwneud eu dewisiadau eu hunain am beth hoffent chwarae ag ef. Mae ardaloedd chwarae yn eang ac wedi'u trefnu'n ddeniadol gyda digonedd o deganau ac adnoddau o ansawdd da, ac mae maint y rhan fwyaf o'r dodrefn yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal. Mae arweinwyr yn cyflwyno ardaloedd ar gyfer gorffwys yn greadigol ac yn gwahodd plant i gael ychydig o amser tawel i ddarllen llyfrau. Mae arweinwyr yn sicrhau bod teganau, llyfrau a gweithgareddau pen bwrdd yn codi ymwybyddiaeth plant am ddiwylliannau ehangach.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae yn yr awyr agored yn darparu dewis addas o offer ac adnoddau ar gyfer plant i helpu datblygu eu medrau corfforol a chydsymud. Mae arweinwyr yn trefnu ardaloedd i blant ddatblygu chwilfrydedd am y byd naturiol a dysgu am blannu, tyfu blodau a bwydo adar.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae arweinwyr yn creu ethos cynnes a chroesawgar yn y lleoliad. Mae ganddynt weledigaeth glir sy'n rhoi lles y plant a'r staff yn ganolog i'w gwaith. Maent wedi creu ymdeimlad cryf o waith tîm, ac o ganlyniad, mae staff yn hapus ac yn effeithiol yn eu rolau.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan staff swydd-ddisgrifiadau clir sy'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn ymwneud â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Ceir gweithdrefnau recriwtio diogel a sefydledig, a nifer addas o ymarferwyr sy'n meddu ar y cymwysterau a'r profiad priodol. Mae arweinwyr yn dechrau cynorthwyo ymarferwyr trwy arfarnu a goruchwylio'n fwy rheolaidd. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau a chyllid arall i wella'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn blaenoriaethu'r amgylchedd awyr agored i ddatblygu medrau annibynnol a chyfathrebu plant.

Mae arweinwyr wedi datblygu gweithdrefnau hunanwerthuso effeithiol. Maent yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i werthuso gwaith y lleoliad a nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae cynlluniau gwella'r lleoliad yn cynnwys ystod synhwyrol o dargedau a blaenoriaethau, sy'n galluogi arweinwyr i ymdrechu'n barhaus i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer plant. Mae arweinydd y lleoliad yn fodel rôl da ac yn cynorthwyo ymarferwyr eraill yn eu datblygiad proffesiynol yn effeithiol. Er enghraifft,

mae arweinwyr wedi cynorthwyo ymarferwyr i ddatblygu medrau Cymraeg plant trwy hyfforddiant defnyddiol ac arddangosfeydd addysgiadol ar y waliau.

Mae arweinwyr yn gweithio’n dda gyda rhieni a gofalwyr ac yn eu hysbysu’n briodol am gynnydd eu plentyn. Maent yn sicrhau cyfleoedd buddiol i rieni a gofalwyr ymweld â’r lleoliad a chyfarfod â theuluoedd eraill. Mae hyn yn cefnogi pontio wrth i blant symud trwy’r lleoliad, ac yn dyfnhau perthnasoedd ag ymarferwyr. Mae’r lleoliad ar safle ysgol gynradd ac mae’r berthynas weithio rhwng arweinwyr a staff yn gryfder gwirioneddol yn y lleoliad.

Mae arweinwyr yn datblygu cysylltiadau cryf ac effeithiol â’r gymuned sy’n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn ymhlith y plant. Mae plant yn ymweld â’r siop fara a’r salon gwallt lleol sy’n eu helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth tra’n chwarae yn ardaloedd chwarae rôl y caffi a’r salon gwallt. Mae gan y lleoliad berthynas hynod effeithiol â’r athro ymgynghorol lleol a thîm dysgu ychwanegol Ynys Môn, sy’n cynnig cymorth pan fydd angen. Maent yn hynod werthfawrogol o’r holl gymorth a chyngor, ac yn gweithredu’n brydlon yn unol â hyn, gan gyfrannu at lwyddiant cyffredinol y lleoliad.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/03/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 26 Mawrth 2024